WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Ms Bronwen Morgan
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod | 627A2013 |
| Dyddiad | 29 Tachwedd 2013 |
| Tudalennau | 1 o 2 |

Annwyl Bronwen

# Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 27 Awst 2013, rhoddais fy marn ynghylch a yw Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio ar gyfer gwella.

Mae'n ofynnol i mi hefyd, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

## Yn fy marn i, ac yn seiliedig ar waith archwilio a wnaethpwyd hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur ond ceir potensial i gryfhau ei drefniadau ymhellach

Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur:

- cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Gynllun Gwella - Perfformiad 2012-13* (y Cynllun Gwella) cyn 31 Hydref 2013;
- mae'r Cynllun Gwella yn asesu perfformiad y Cyngor yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac mae'n amlinellu sut y mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- mae'r Cynllun Gwella yn rhoi manylion gweithgaredd y Cyngor wedi ei anelu at gyflawni ei amcanion gwella gan fynegi ei berfformiad mewn ffordd deg a chytbwys yn gyffredinol;
- mae'r Cynllun Gwella yn cynnwys cyfeiriad byr a manylion cyswllt i ddinasyddion sydd eisiau rhoi adborth neu sylwadau ar berfformiad y Cyngor, ond gellid gwella'r wybodaeth hon a'i gwneud yn fwy amlwg;
- mae'r Cynllun Gwella yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y'u mesurwyd gan ddangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol; ac
- mae'r Cynllun Gwella yn cynnwys cyfeiriadau at sut y mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithio.

Rwyf wedi nodi'r meysydd canlynol lle y gall y Cyngor gryfhau ei drefniadau adrodd ar welliant:

- Mae ehangder ac ansawdd dadansoddiad o fesurau perfformiad, gwybodaeth ansoddol a data cymharol a gynhwysir yn y Cynllun Gwella yn rhy gyfyngedig. Yn gyffredinol, nid yw'n rhoi gwerthusiad eglur i ddinasyddion o'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud tuag at gyflawni ei amcanion gwella ac effaith ei weithgareddau gwella ar ddefnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion.
- Nid yw'r Cynllun Gwella yn darparu gwybodaeth am fanteision gweithgaredd cydweithio hyn yn hyn. Dylai hyn gynnwys beth sydd wedi ei gyflawni ac a yw'r canlyniadau a fwriadwyd yn cael eu cyflawni. Byddai'r math yma o wybodaeth yn galluogi'r Cyngor i fesur a gwerthuso'n fwy tryloyw y manteision gwirioneddol sydd wedi'u cyflawni drwy gydweithio.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Rwy'n gwneud un cynnig newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddaf yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a amlinellwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol ac yn adrodd ar y cynnydd.

| **Cynnig ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau adrodd ar welliant drwy ddarparu:<br>• gwerthusiad mwy eglur o'r cynnydd y mae wedi ei wneud yn erbyn ei amcanion gwella a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddefnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion; a<br>• gwybodaeth am fanteision cydweithio ac a yw'r canlyniadau a fwriadwyd yn cael eu cyflawni. |

Byddaf yn gwneud rhagor o waith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi gwaith rheoli ac adrodd ar berfformiad y Cyngor yn ystod y misoedd i ddod. Byddaf yn adrodd ar hyn, yn ogystal â chrynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14, mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Cyngor y byddaf yn ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mai 2014.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc: Lesley Griffiths, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth